# Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

## EUR(2) 04-06 (p.4)

### Dyddiad: 10 Mai 2006
### Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd
### Teitl: ADRODDIAD I'R CYNULLIAD AR GYFER 2005-2006

#### Cyflwyniad

1. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2005 a 31 Mawrth 2006.

#### Yr Aelodau

2. Yn ystod y flwyddyn bu'r canlynol yn Aelodau o'r Pwyllgor:

| | |
|---|---|
| Nick Bourne AC | Ieuan Wyn Jones AC |
| Rosemary Butler AC | Sandy Mewies AC (Cadeirydd) |
| Jeff Cuthbert AC | Jonathan Morgan AC |
| Michael German AC | Rhodri Morgan AC (Prif Weinidog Cymru) |
| Christine Gwyther AC | Rhodri Glyn Thomas AC |

#### Cyfarfodydd

3. Yn ystod y cyfnod hwn, cynhaliwyd naw cyfarfod cyhoeddus ffurfiol gan y Pwyllgor a chynhaliwyd y rhan fwyaf ohonynt yng Nghaerdydd. Cyfarfu'r Pwyllgor yn Llangollen ym mis Gorffennaf, gydag ymweliad â'r Eisteddfod Ryngwladol i ddilyn – yn cynnwys derbyniad a gynhaliwyd gan y Cadeirydd. Ym mis Medi, aeth rhai Aelodau i gyfarfod anffurfiol gyda Danuta H?bner, Comisiynydd Ewropeaidd, yng Nghaerdydd. Ymwelodd y Pwyllgor â Brwsel ym mis Chwefror a chynhaliwyd cyfarfodydd yn Nhy Cymru ac yn swyddfeydd y Comisiwn Ewropeaidd, Pwyllgor y Rhanbarthau a Senedd Ewrop. Cyfeirir at y cyfarfodydd hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

#### Cylch Gwaith a Chyfrifoldebau

4. Mae'r sail statudol ar gyfer y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol wedi'i nodi yn Rheol Sefydlog 15.

5. Cylch gwaith y Pwyllgor yw goruchwylio'r canlynol:

(i) perthynas y Cynulliad â'r rhanbarthau, cenhedloedd eraill a sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd, a'i ddulliau o hysbysu a chynghori'r sefydliadau hynny am anghenion Cymru;

(ii) trefniadau'r Cynulliad ar gyfer cysylltu ag UKREP ac adrannau llywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch materion Ewropeaidd;

(iii) dulliau a gweithdrefnau'r Cynulliad ar gyfer ystyried dogfennau, materion a chwestiynau sy'n deillio o sefydliadau Ewropeaidd, gan dalu sylw arbennig i'r angen am gysylltu ag Aelodau Seneddol sy'n gyfrifol am graffu ar faterion Ewropeaidd sy'n arbennig o berthnasol i Gymru; a
(iv) perthynas y Cynulliad â rhanbarthau a chenhedloedd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd a chysylltiadau'r Cynulliad â sefydliadau Ewropeaidd a sefydliadau rhyngwladol.

6. Er mwyn hwyluso'r gwaith o rannu gwybodaeth ymysg Aelodau'r Cynulliad a chynrychiolwyr o Gymru mewn amrywiol sefydliadau Ewropeaidd, mae Rheolau Sefydlog yn rhoi cyfle i Aelodau o Gymru yn Senedd Ewrop a chynrychiolwyr o Gymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau gymryd rhan yng nghyfarfodydd y Pwyllgor. Mae'r Pwyllgor wedi ymestyn y gwahoddiad hwn i gynrychiolwyr o Gymru ar y Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol (ECOSOC) a Chynrychiolaeth y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru.

## Crynodeb o Weithgareddau'r Pwyllgor

7. Bu'r Pwyllgor yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â'r Undeb Ewropeaidd ond cydnabuwyd bod ein cylch gwaith yn ehangach na hyn, a'n nod oedd sicrhau cydbwysedd priodol yn ein rhaglen waith. Dim ond crynodeb o'n gwaith yn ystod y cyfnod dan sylw yw'r canlynol.

## Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd a Pholisi Cydlyniant

8. Mae'r Pwyllgor wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau mewn perthynas â'r cronfeydd strwythurol yn bennaf trwy adroddiad y Prif Weinidog. Derbyniodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed gan swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn ei gyfarfod ym mis Hydref, a oedd yn cynnwys trafodaethau ar reoliadau'r cronfeydd strwythurol drafft; Canllawiau Strategol y Gymuned a baratowyd gan y Comisiwn Ewropeaidd; pennod ar Gymru o'r Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol a'r egwyddorion cytûn ar gyfer rhaglenni datblygu rhanbarthol ar ôl 2006. Ym mis Ionawr, cyflwynodd y Prif Weinidog adroddiad ar ganlyniad cyfarfod y Cyngor Ewropeaidd ym Mrwsel. Roedd hyn yn nodi diwedd cyfnod y DU yn llywyddu'r Undeb Ewropeaidd, a'r prif ffocws oedd cytundeb ar Bersbectif Ariannol yr UE ar gyfer y cyfnod o chwe blynedd yn dechrau yn 2007. Roedd hyn yn newyddion da i Gymru. Bydd Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn derbyn cyllid Cydgyfeirio (Amcan 1 cyn hynny), sy'n debygol o fod yn debyg i ddyraniadau presennol. Mae gweddill Cymru'n debygol o fod yn gymwys i gael cyllid Cystadleurwydd. Nid yw'r union ddyraniadau wedi'u pennu.

## Polisi Rhanbarthol yr Undeb Ewropeaidd

9. Mae llawer o'r materion sy'n ymwneud â'r cronfeydd strwythurol hefyd yn effeithio ar ddatblygiad polisi rhanbarthol Ewropeaidd oherwydd defnyddir ystadegau tebyg ar gyfer dynodi ardaloedd sy'n gallu derbyn cymorth. Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed ym mis Ebrill, mis Gorffennaf, mis Medi a mis Hydref. Ym mis Medi, cynhaliodd yr Aelodau drafodaethau anffurfiol â Danuta H?bner, Comisiynydd yr UE sy'n gyfrifol am bolisi rhanbarthol. Roedd y Comisiynydd yn gwerthfawrogi'r cyfle i weld i'w hun sut y caiff cronfeydd strwythurol yr UE eu defnyddio yng Nghymru. Cododd Aelodau nifer o faterion, yn cynnwys y posibilrwydd o gytuno ar gyllideb yr UE yn ystod llywyddiaeth y DU; yr ardaloedd daearyddol a gaiff eu cynnwys yn y rhaglen cyllid Cystadleurwydd a goblygiadau'r ffaith nad oedd llywodraeth mewn grym (ar y pryd) yn yr Almaen, yn dilyn etholiadau ffederal amhendant.

## Strategaeth Lisbon

10. Cytunwyd yng nghyfarfod y Cyngor Ewropeaidd ym mis Mawrth 2005 y dylai pob aelod-wladwriaeth gyflwyno Rhaglenni Diwygio Economaidd Ewropeaidd i'r Comisiwn Ewropeaidd, gan nodi'r diwygiadau allweddol y maent yn ymgymryd â hwy i hyrwyddo swyddi a thwf. Y brif adran yn y DU yw'r Trysorlys, gyda chyfraniadau gan adrannau Whitehall, gweinyddiaethau datganoledig a rhanddeiliaid allanol. Dogfen fer yw'r Rhaglen Diwygio Cenedlaethol sy'n nodi cynlluniau'r Deyrnas Unedig ar gyfer cyflwyno strategaeth Lisbon, a'i nod yw sicrhau mai'r Undeb Ewropeaidd yw'r economi mwyaf cystadleuol a deinamig sy'n seiliedig ar wybodaeth yn y byd yn ystod y deng mlynedd nesaf. Amlinellir y Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol ar gyfer Cymru yn ‘Cymru: Economi yn Ffynnu’, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2005. Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd, drwy adroddiad y Prif Weinidog, ac ystyriwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed gan swyddogion Llywodraeth y Cynulliad ym mis Tachwedd.

## Llywyddiaeth yr Undeb Ewropeaidd

11. Y Deyrnas Unedig oedd yn llywyddu'r Undeb Ewropeaidd yn ystod hanner olaf 2005. Derbyniodd y Pwyllgor adroddiadau cynnydd rheolaidd gan y Prif Weinidog ac ym mis Medi derbyniwyd papur briffio gan uwch swyddogion Llywodraeth y DU o'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad. Prif flaenoriaethau'r Llywyddiaeth oedd; ariannu'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol a thrafodaethau ar bersbectif ariannol 2007-2013; diogelwch a sefydlogrwydd yn cynnwys cynllun gweithredu'r UE ar wrthderfysgaeth a mesurau i reoli'r llif o bobl sy'n ymfudo'n anghyfreithlon; rôl Ewrop yn y byd, yn cynnwys cyfarfod pwysig Sefydliad Masnach y Byd yn Hong Kong ym mis Rhagfyr a'r angen i sicrhau mynediad gwell i farchnadoedd byd-eang ar gyfer gwledydd sy'n datblygu; roedd cyfnod y DU yn llywyddu'r UE a'r G8 ar yr un pryd yn gyfle i wneud cynnydd ar fesurau i fynd i'r afael â'r broblem fyd-eang o newid yn yr hinsawdd a hefyd problemau cronig o ran tlodi, newyn a'r gwrthdaro yn Affrica.

12. Trosglwyddodd y DU Lywyddiaeth yr UE i Awstria. Ym mis Ionawr, daeth Ei Hardderchogrwydd

Dr Gabriel Matzner-Holzer, Llysgennad Awstria yn y DU, i annerch y Pwyllgor. Paratowyd rhaglen waith ar y cyd ar gyfer 2006 gan Awstria a'r Ffindir, a fydd yn Llywyddu yn ystod hanner olaf 2006. Roedd hyn yn cynnwys mesurau i gyfrannu at les economaidd a chymdeithasol, diogelu'r amgylchedd, rhyddid a diogelwch dinasyddion Ewrop a chryfhau rôl yr Undeb Ewropeaidd yn y byd.

## Perthynas â Gwledydd eraill Ewrop

13. Mae'r Pwyllgor wedi derbyn adroddiadau rheolaidd gan y Prif Weinidog ar y berthynas â gwledydd eraill Ewrop. Ym mis Mai, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar y cydweithio rhwng Cymru a Silesia ym maes llywodraeth leol, o dan y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Cymru a Silesia. Yn ystod y cyfnod dan sylw, cynhaliodd y Cadeirydd gyfarfodydd â Llysgenhadon o Awstria, Estonia a Lithwania.

## Cysylltiadau Allanol Ehangach

14. Ym mis Ebrill, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad gan Weinidog y Cynulliad dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, ar Uwchgynhadledd Llyn Toba a Chynulliad Cyffredinol Cyntaf Rhwydwaith y Llywodraethau Rhanbarthol dros Ddatblygu Cynaliadwy. Yn yr un cyfarfod, derbyniodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed gan y Ganolfan Gymreig Materion Rhyngwladol ar drafodaethau Sefydliad Masnach y Byd ar agenda datblygu Doha; a'i nod yw cynyddu cyfran yr incwm byd-eang ar gyfer gwledydd sy'n datblygu, yn arbennig y rhai sydd wedi datblygu'r lleiaf. Ym mis Mehefin, derbyniwyd adroddiad gan Oxfam Cymru a Chymorth Cristnogol ar yr hyn y gall Cymru ei wneud i roi terfyn ar dlodi. Roedd hwn yn ymgyrch a gynhaliwyd drwy gydol 2005 gyda'r nod o annog gwledydd datblygedig i weithredu polisïau i gynorthwyo'r gwledydd lleiaf datblygedig drwy, er enghraifft, leihau'r baich dyledion a hwyluso masnach deg.

15. Ym mis Gorffennaf, cynhaliodd y Pwyllgor gyfarfod yn Llangollen. Clywsom gan Brif Weithredwr yr Eisteddfod Ryngwladol a hefyd gan Gyfarwyddwr Cyffredinol y Cyngor Prydeinig am eu prosiect cyfryngau rhyngwladol, sydd wedi'i anelu at annog newyddiadurwyr tramor ifanc i gynnwys mwy o straeon gwleidyddol yn eu gwledydd hwy ac mewn gwledydd eraill a meithrin gwell ddealltwriaeth o'r broses ddemocrataidd. Roedd tua ugain o newyddiadurwyr tramor, a oedd yn cymryd rhan yn y prosiect hwn, yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor ac wedi cymryd rhan yn nhrafodaethau'r Pwyllgor. Ar ôl y cyfarfod, aeth Aelodau'r Pwyllgor i'r Eisteddfod Ryngwladol i gwrdd â dirprwyon o sawl gwlad.

16. Ym mis Medi, dysgodd y Pwyllgor am bartneriaethau allanol a gaiff eu datblygu gan Athrofa Gogledd Ddwyrain Cymru ar y cyd â sefydliadau addysg uwch dramor, yn cynnwys y rheini yn India a Tsieina. Ym mis Tachwedd, roedd amryw o ddirprwyon o gynhadledd ryngwladol y Cyngor Prydeinig, a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ar thema ‘Women in Politics: Equal Numbers, Equal Impact’ yn bresennol yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor, a chafwyd anerchiad ganddynt ar sut y mae eu gwledydd yn mynd i'r afael â'r rhwystrau a wynebir gan ferched o ran cymryd mwy o ran mewn gwleidyddiaeth. Ym mis Mawrth, derbyniodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am waith Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad gan Alun Cairns AC, Cadeirydd Cangen Cymru.

## Craffu ar Ddeddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd

17. Yn unol â'r protocol a gymeradwywyd gan Banel y Cadeiryddion, canolbwyntiodd y Pwyllgor ar raglen waith flynyddol y Comisiwn Ewropeaidd, a oedd yn caniatáu iddynt nodi'r cynigion a oedd fwyaf tebygol o effeithio ar Gymru yn gynharach. Mabwysiadwyd yr ymagwedd hon gan y Pwyllgorau Pwnc hefyd. Yn ystod y cyfnod dan sylw, ystyriodd y Pwyllgor y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith, y Gyfarwyddeb Gwasanaethau, y Rhaglen Fframwaith ar gyfer Ymchwil a Datblygu, y Canllawiau Cymorth Rhanbarthol Drafft a Strategaeth Gyfathrebu'r Comisiwn Ewropeaidd. Ym mis Ionawr, cymeradwyodd y Pwyllgor y protocol hwn ymhellach a chyflwynodd bapur i Banel y Cadeiryddion, ac fe'i cymeradwywyd. Dewisodd y Pwyllgor nifer o eitemau o raglen waith 2006 y Comisiwn, a gaiff ei chynnwys ym mlaenraglen waith y Pwyllgor. Yn ogystal, bydd y Pwyllgor yn monitro gwaith a gynhaliwyd gan y Pwyllgorau Pwnc ar graffu ar ddeddfwriaeth neu bolisïau'r Undeb Ewropeaidd.

## Pwyllgorau Ewropeaidd eraill y Deyrnas Unedig

18. Mae'r Pwyllgor yn cynnal cysylltiad agos â Phwyllgorau Ewropeaidd eraill y Deyrnas Unedig, sef y rhai yn Nhy'r Cyffredin, Ty'r Arglwyddi a Senedd yr Alban. Mae'r Pwyllgorau hyn yn hysbysu ei gilydd o'u gweithgareddau trwy ddosbarthu rhaglenni gwaith, papurau ac agendau Pwyllgorau. Bydd y clercod a'r swyddogion eraill sy'n cynorthwyo'r Pwyllgorau hyn yn cadw mewn cysylltiad ac yn trefnu ymweliadau i rannu profiadau a datblygu arbenigedd. Bydd yr Aelodau etholedig hefyd yn cyfarfod o bryd i'w gilydd; er na chafwyd cyfarfodydd o'r fath yn ystod y cyfnod dan sylw.

19. Ymatebodd y Pwyllgor i alwad am dystiolaeth gan Bwyllgor Craffu Ewropeaidd Ty'r Arglwyddi ynghylch sut y gallai'r Pwyllgor wneud mwy i hyrwyddo mwy o ddealltwriaeth gan ddinasyddion y Deyrnas Unedig a phobl ifanc yn arbennig o'r Undeb Ewropeaidd.

## Pwyllgor y Rhanbarthau

20. Mae Rosemary Butler AC, Aelod o'r Pwyllgor a Janet Davies AC, un o'r Gwahoddedigion Sefydlog, yn Aelodau o Bwyllgor y Rhanbarthau. Aeth y ddwy i gyfarfodydd ym Mrwsel gan adrodd yn rheolaidd ar waith Pwyllgor y Rhanbarthau a materion sy'n berthnasol i Gymru.

21. Ym mis Tachwedd, cymerodd y Pwyllgor ran mewn prosiect peilot a drefnwyd gan Rwydwaith Monitro Sybsidiaredd Pwyllgor y Rhanbarthau. Roedd hyn yn golygu ystyried dwy Gyfarwyddeb y Comisiwn Ewropeaidd ar ansawdd aer a chytuno ar sut y mae'r egwyddor sybsidiaredd yn berthnasol. Y diben oedd profi protocolau perthnasol mewn Seneddau a Chynulliadau rhanbarthol. Roedd yn amlygu'r materion gweithdrefnol gwahanol, ac mae'n debygol y caiff ail brosiect peilot ei drefnu yn ystod 2006.

## Ymweliad â Brwsel

22. Ar ddiwedd mis Chwefror, ymwelodd y Pwyllgor â Brwsel a chynhaliwyd cyfarfod adeiladol iawn

â'r Comisiynydd H?bner (polisi rhanbarthol) a'r Comisiynydd Borg (polisi morol), a hefyd Gerhard Stahl, Cyfarwyddwr Cyffredinol Pwyllgor y Rhanbarthau. Cafodd Aelodau'r Pwyllgor hefyd friff gan uwch swyddogion o Senedd Ewrop a Senedd y Deyrnas Unedig ar faterion allweddol presennol. Cynhaliodd y Cadeirydd ginio yn Nhy Cymru a gwahoddwyd yr Aelodau i dderbyniad gyda'r nos i nodi dechrau 'Wythnos Cymru' a gynhaliwyd gan y Prif Weinidog.

**Sandy Mewies AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor**